**COFNODION DRAFFT**

Cofnodion Cyngor nos Iau Tachwedd 10 2022 am 7pm
Presennol: E.R.Noble, L.Roberts, C.L.Price, T.W.Jones, M.L.Hughes, M.Skerret, I.W.Griffiths.
Ymddiheuriadau: C.Brewer
Datgan Diddordeb. Dim.

Cofnodion: Cadarnhawyd cofnodion 13.10.22, cynnig I.W.Griffiths, cefnogi C.L.Price.

Heddlu. L.Roberts wedi trafod y sefyllfa yn y pentref gydag Uwch Swyddog yn yr Heddlu ac wedi cwyno nad oes gwasanaeth PCSO yn cael ei gynnig, buasai Liz yn hoffi cael cyfarfod gyda'r swyddogion i drafod y sefyllfa. Fe wnaiff hi roi manylion cyswllt i'r Clerc.

Yr A470. Rhoes y Clerc gopiau o'r ohebiaeth mae'r Cyngor wedi'i dderbyn mewn perthynas â'r A470 i Liz Roberts er diddordeb a chymorth i Llyr H Gruffydd AC sydd am edrych i mewn i'r sefyllfa. Roedd y Daily Post wedi rhoi sylw a lluniau o Rhian a Penny sy'n rhan amlwg o'r rhai yn defnyddio'r 'gwn cyflymder' yn y pentref.

Cyngor Sir. Dim ymateb i'r cais am arwydd addas i rwystro gyrrwyr rhag creu problemau ym Mhont y Pant, Clerc i anfon eto.

Llwybrau. Clerc i gysylltu â Simon Rogers ym mhrif swyddfa yr Ymddiriedolaeth i geisio cael gwybodaeth am y sefyllfa gyda'r Ystol ger Granllyn.

Pontydd yn yr Ardal. Liz Roberts yn deall fod cais cynllunio ar gyfer pont fydd yn caniatau loriau yn cario hyd at 40T wedi ei gyflwyno ar gyfer Pont Sarn Ddu. Clerc i anfon at B.Shilland i holi am y 2 bont arall.

Cynlluniau.
Ty'n Afallen - dim penderfyniad
Bodygroes - dim penderfyniad
Pont Chwarel y Fedw - dim penderfyniad
3 Bron Llan - Dim gwrthwynebiad.
Cynllun Fferm Tanrallt - dim gwrthwynebiadau.
Gwalia - Dim i'w adrodd

Llifogydd. Y Cadeirydd a L.Roberts mewn trafodaethau gydag E.Williams am y sefyllfa yn Ddôl y pentref.

Scottish Power. Mae'n debygol y bydd rhaid aros hyd y gwanwyn i gael gwybodaeth am y sefyllfa yn ardal Hafod Gwenllian a Bwlch Gorddinan.

Sgip. Clerc wedi trefnu i gael sgip i'r ardal ym mis Tachwedd.

Toiledau. Clerc wrthi'n trefnu Debyd Uniongyrchol fydd yn hwyluso y taliad ar gyfer trydan yn y toiledau. Cafwyd sylwadau gan Zac ar gyfer agor y toiledau 24 awr y dydd - teimlai y dylid ystyried ei cadw ar agor hyd at 10:30pm ond ofnai y gallai hynny greu trafferthion? Tybed oes sylw yn yr yswiriant ynglŷn â hyn? Awgrymodd newid ei oriau i 3awr yr wythnos drwy'r flwyddyn - cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

Y Gofgolofn. Derbyniwyd sylwadau gan Connie oedd yn methu a bod yn y cyfarfod, mae'r gwaith celf 'milwyr' yn drawiadol iawn, Clerc i anfon at Mark i ddiolch iddo. Bydd y gwaith ar y pilar wedi ei orffen erbyn Sul y Cofio ynghyd â'r gwaith atgyweirio'r ffens 'cast'.

Gwaith yn y Fynwent. Roedd C.Brewer wedi darparu diweddariad am sefyllfa'r gwaith gan gyfeirio at wahanol agweddau o'r cynlluniau fel y gwaith walio, gwaith ar y giatiau, y plannu bylbiau blodau ac atgyweirio'r placiau llechen wrth y giat. Eto diolchodd y Cadeirydd i Connie am ei hadroddiad.

Ariannol. Rhoes y Clerc adroddiad am y sefyllfa bresennol i'r Aelodau a chytunwyd ar y biliau i'w talu, cynnig T.W.Jones, cefnogi M.Skerrett a pawb o blaid. Cadarnhaodd y Clerc ei fod yn cyfarfod Iona Edwards yn Llanrwst dydd Mawrth.

Coeden Nadolig. Cadarnhaodd C.Brewer ei bod wedi trefnu ar gyfer cael coeden a dylai gyrraedd erbyn Tachwedd 28, bydd gweithwyr Cwmni ALFA yn ei gosod yn ei lle ar gyfer troi'r goleuadau ymlaen ar Rhagfyr 2ail am 5:30pm. Eto diolchwyd yn fawr iawn iddi am drefnu hyn.

Gwefan y Cyngor. Cadarnhaodd M.Skerrett fod oddeutu 400 ymweliad wedi bod ar y safle.

Llysiau'r Dial (Knotweed). Clerc wedi anfon at berchennog y tir ond heb dderbyn atebiad.

Torri Coed. Clerc wedi derbyn gohebiaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi ei bod yn trefnu gwaith coedwigo yn ardal Ty'n y Cwm yn fuan ac yn rhoi manylion am y gwaith, roedd y Clerc wedi cysylltu â'r Swyddog lleol Carwen Evans ac wedi cael gwybod ganddi y byddant yn sicrhau na fydd y loriau yn gweithredu yn y boreau nac yn y prynhawn ar adegau y bydd yn plant yn mynd a dod o'r ysgol. Bydd angen cadw golwg ar y sefyllfa.

Parcio ger y Castell. Bu trafodaeth am y sefyllfa gyda'r ffaith fod y maes parcio ar gau a dim mynediad i'r Castell, cytunwyd i adael i L.Roberts a C.L.Price drafod y sefyllfa gyda'r awdurdod.

Llwybyr ger Chwarel Ty'n y Bryn. Deallwyd fod 'problem' gyda rhwystrau ar y llwybyr, L.Roberts a'r Cadeirydd i drafod gydag E.Williams.

Ymatebwyr Cyntaf. Llongyfarchwyd I.W.Griffiths sydd am ddilyn hyfforddiant i ddod yn Ymatebwr Cyntaf, swydd gyfrifol a phwysig iawn.

Cyfieithydd. Roedd Glyn wedi cadarnhau mai hwn fyddai'r cyfarfod olaf iddo fedru dod iddo gan fod pwysau gwaith a chyfrifoldeb teuluol yn ei gwneud yn anodd dros ben iddo ddal i ddod. Diolchodd y Cadeirydd yn gynnes iawn iddo am ei waith arbennig ar ran y Cyngor.

Cyfarfod nesaf. Cytunwyd i gyfarfod nesaf nos Iau Rhagfyr 8.